# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (COUNCIL CHAMBER - PORT TALBOT CIVIC CENTRE)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, A.N.Woolcock, C.Williams a/ac S.Renkes |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, T.Davies, S.Evans, R.MacGregor a/ac T.Davies |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2019.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF P2019/0021 - GÂT TREFTADAETH, COED LLANDARCY, LLANDARCY, CASTELL-NEDD**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (140 o unedau preswyl gydag isadeiledd cysylltiedig (amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl) wrth y Gât Treftadaeth, Coed Llandarcy, Llandarcy, Castell-nedd SA10 6HZ) fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/0021, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr

amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **CAIS RHIF. P2019/5335 - FFERM CILPENTAN, HEOL LLWYNCELYN, TAI'R-GWAITH**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (dymchwel yr ysgubor ar wahân sy'n bodoli eisoes, ac ailadeiladu estyniad ochr deulawr ar yr annedd i ddarparu rhandy a/neu lety i dwristiaeth yn Fferm Cilpentan, Heol  Llwyncelyn, Tai'r-gwaith SA18 1UU) fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5335, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CAIS RHIF. P2019/5485  - 2 CILGANT BALDWIN, TWYNI CRYMLIN, CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid defnydd o dŷ preswyl (C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (C4) gydag uchafswm o 5 preswylydd yn rhif 2 Cilgant Baldwin, Twyni Crymlyn, Castell-nedd Port Talbot SA1 8QE) fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod ward lleol yn bresennol i gyflwyno'i sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5485, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac yn dilyn diwygio'r geiriad ar gyfer amod 3 a ddarparwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Er y manylion a gyflwynwyd, cyn y defnydd llesiannol cyntaf o’r eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO), rhaid bod cynllun eisoes wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n manylu ar ddarparu tri lle parcio oddi ar y stryd o fewn cwrtil yr eiddo a fydd yn cynnwys

manylion arwyneb caled y dramwyfa/ardal barcio a darparu cwrbyn isel. Rhaid rhoi'r cynllun a gymeradwyir ar waith cyn y defnydd llesiannol cyntaf o’r eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth am y tro cyntaf.

Rheswm:

I sicrhau bod lleoedd parcio digonol ar gyfer y datblygiad er diogelwch y briffordd ac i sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi BE1 Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot.

6. **CAIS RHIF. P2019/5515 - 1 STRYD Y GORON, PORT TALBOT**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (newid defnydd o 4 fflat (defnydd C3a) i Dŷ Amlfeddiannaeth (defnydd C4) â 6 ystafell wely yn Fflatiau A i D, 1 Stryd y Goron, Port Talbot SA13 1BG) fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod ward lleol yn bresennol i gyflwyno'i sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5515, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 29 HYDREF I 18 TACHWEDD, 2019**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 29 Gorffennaf a 18 Awst 2019, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

8. **UNRHYW EITEMAU BRYS (BOED YN GYHOEDDUS NEU'N EITHRIEDIG) YN Y CADEIRYDD YN UNOL AG OFFERYN STATUDOL 2001 RHIF 2290 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r apêl orfodi ganlynol y penderfynwyd arni, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl. A2019/5003

Heb ganiatâd cynllunio, newid defnydd tir o fod yn dir dim defnydd i iard fasnachol/depo ar gyfer Glantawe Landscapes a fydd yn cynnwys lleoedd parcio i gerbydau, storfa a pheiriant torri/asglodi pren yn ogystal â chodi adeileddau pren sy'n gysylltiedig â'r defnydd ar dir gerllaw i Greencroft, Heol Ynys y Darren, Ystalyfera, Abertawe SA9 2EH.

Decision:

Tynnu'r apêl yn ôl

**CADEIRYDD**